



Senedd Cymru  
Welsh Parliament



# Ein cynllun gweithredu yng Nghomisiwn y Senedd



# Amrywiaeth a chynhwysiant



## Amrywiaeth

Mae hyn yn golygu deall bod pobl yn wahanol a bod ganddynt anghenion gwahanol

## Cynhwysiant

Mae hyn yn golygu sicrhau bod llais pawb yn cael ei glywed a bod pawb yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi a bod rhywun yn gwrando arno



## Cydraddoldeb

Mae cydraddoldeb yn air arall rydym yn ei ddefnyddio. Mae'n golygu y dylai pawb gael ei drin yn deg a chael y cyfle gorau i wneud yn dda mewn bywyd.



Pan fyddwn yn dweud cynhwysiant yn y llyfryn hwn, mae'n golygu meddwl am gydraddoldeb, amrywiaeth a chynnwys pobl.




## Ein cynllun

Ni yw Comisiwn y Senedd. Rydym yn cefnogi Senedd Cymru. Rydym yn cefnogi Senedd Cymru.



Rydym yn sicrhau bod gan y Senedd ddigon o staff a gwasanaethau i weithio'n iawn.



Mae gennym gynllun sy'n ein helpu i gynnwys amrywiaeth a chynhwysiant ym mhopeth a wnawn.



Mae angen i ni ddiweddarau ein cynllun. Rydym am fod yn dda iawn o ran amrywiaeth a chynhwysiant.



Rydym wedi siarad â llawer o bobl. Maent wedi ein helpu i benderfynu pa bethau y mae angen i ni weithio arnynt.



Ar gyfer pob un o'r 4 maes rydym am weithio arnynt, rydym yn dweud wrthyich:

- beth rydym am ei wneud a  
**ac**
- sut y byddwn yn gwneud iddo ddigwydd

## Maes 1 - Sut y gallwn feddwl am gynhwysiant ym mhopeth a wnawn



Mae Comisiwn y Senedd yn sefydliad mawr. Mae angen i ni sicrhau bod ein holl staff yn gwybod bod cynhwysiant yn bwysig iawn.



Mae'n rhaid i ni feddwl sut y mae'n effeithio ar bobl yn yr holl waith a wnawn.



## 1. Beth rydym am ei wneud:

- diweddarau ein cynllun ar gyfer amrywiaeth a chynhwysiant



- sicrhau bod ein holl bolisiau a chynlluniau'n dweud yr un peth am amrywiaeth a chynhwysiant



## Sut y byddwn yn gwneud i hyn ddigwydd:

- sicrhau bod pawb yn gwybod pwy sy'n gyfrifol am wneud y gwaith



- edrych ar yr holl bethau gwahanol y mae angen i ni eu gwneud ar gyfer cynhwysiant. Byddwn yn sicrhau nad ydym oll yn gwneud yr un gwaith

## 2. Beth rydym am ei wneud:

Yng Nghomisiwn y Senedd, mae grwpiau gwahanol sy'n sicrhau ein bod yn:



- trin pawb yn deg



- siarad â llawer o bobl wahanol a gofyn beth yw eu barn



- gofalu am staff a'u hawliaus



Byddwn yn sicrhau bod yr holl grwpiau hyn yn cydweithio.



Byddant yn sicrhau bod Senedd Cymru yn cynnwys amrywiaeth a chynhwysiant yn briodol ym mhopeth y mae'n ei wneud.

## Sut y byddwn yn gwneud i hyn ddigwydd:



- sefydlu grŵp o'r enw Bwrdd Amrywiaeth a Chynhwysiant.

Bydd gan y Bwrdd Amrywiaeth a Chynhwysiad bobl o'n holl feysydd a grwpiau gwahanol.



Byddant yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod pawb yn dilyn y cynllun hwn.



### 3. Beth rydym am ei wneud:

- gweithio gydag arbenigwyr a sefydliadau eraill



- cynnwys pobl o lawer o grwpiau a chefnidiroedd gwahanol



Er enghraifft:

- Cymunedau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig



- pobl ag anableddau



- Cymunedau lesbiaidd, hoyw neu drawsryweddol



Mae gennym dystysgrif eisoes sy'n dweud ein bod yn dda o ran cyflogi pobl anabl.



Rydym am ddod yn arweinydd nawr. Dyma'r lefel nesaf o'r dystysgrif sydd gennym eisoes.



## Sut y byddwn yn gwneud i hyn ddigwydd:



- gweithio gyda sefydliadau eraill i gadw'n gyfoes am y ffyrdd gorau o fod yn gynhwysol yng Nghomisiwn y Senedd

## 4. Beth rydym am ei wneud:



- helpu'r holl staff i ystyried cynhwysiant wrth lunio polisiau neu gynlluniau newydd a gwneud gweithgareddau



- rhoi cyngor i staff ar sut i wirio beth y bydd effaith eu gwaith ar bobl wahanol. Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yw hyn.

## Sut y byddwn yn gwneud i hyn ddigwydd:



- edrych pa gynlluniau, gweithgareddau a pholisiau fydd yn digwydd eleni. Byddwn yn sicrhau bod staff yn cynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn gyntaf

## 5. Beth rydym am ei wneud:



- llunio adroddiad bob blwyddyn ynghylch pa mor dda y mae ein cynllun yn gweithio. Bydd yr adroddiad yn dweud a ydym wedi gwneud y pethau y dywedwyd y byddem yn eu gwneud

## Sut y byddwn yn gwneud i hyn ddigwydd:



- cael gwybod gan ein holl dimau gwahanol beth sydd wedi gweithio'n dda



- edrych ar wybodaeth am y cymysgedd o bobl sy'n gweithio i ni a faint maent yn cael eu talu

## 6. Beth rydym am ei wneud:

- llunio cynllun i gasglu nodweddion personol am ein staff.

Mae hyn yn golygu pethau fel:



- oedran



- hil



- crefydd



- rhywedd a rhywioldeb



- anabledd

## Sut y byddwn yn gwneud i hyn ddigwydd:



- casglu gwybodaeth am nodweddion personol mewn ffordd well



- os gwelwn ein bod yn gwneud rhywbeth mewn ffordd annheg, byddwn yn ei newid.

Er enghraifft, talu mwy i rywun na rhywun arall am swydd debyg.



## 7. Beth rydym am ei wneud:

- ystyried amrywiaeth a chynhwysiant wrth brynu nwyddau a gwasanaethau

## Sut y byddwn yn gwneud i hyn ddigwydd:



- edrych ar sut y gallwn gefnogi staff i wirio ein bod yn prynu pethau o leoedd gwahanol

## Maes 2 - Arweinyddiaeth dda



Mae ein holl staff yn gyfrifol am amrywiaeth a chynhwysiant yng Nghomisiwn y Senedd.

### Beth rydym am ei wneud:



- gwneud uwch-reolwyr yn gyfrifol am gefnogi amrywiaeth a chynhwysiant yn eu timau a'u prosiectau

### Sut y byddwn yn gwneud i hyn ddigwydd:



- sefydlu Hyrwyddwyr Cydraddoldeb i godi llais dros degwch yn y gwaith.

Bydd yr Hyrwyddwyr Cydraddoldeb yn rhan o'r Bwrdd Amrywiaeth a Chynhwysiant.



- rhoi mwy o hyfforddiant cynhwysiant i uwch-reolwyr

## Beth rydym am ei wneud:



- rhoi hyfforddiant ar amrywiaeth a chynhwysiant i'r holl staff newydd. Byddwn yn rhoi hyfforddiant gloywi i staff eraill bob hyn a hyn o flynyddoedd

## Sut y byddwn yn gwneud i hyn ddigwydd:



- dod o hyd i ffyrdd gwahanol a gwell o roi hyfforddiant i staff newydd. Er enghraifft, defnyddio fideos

## Beth rydym am ei wneud:



- llunio rhai rheolau ynghylch sut y dylai pobl ymddwyn yn y gwaith

## Sut y byddwn yn gwneud i hyn ddigwydd:



- defnyddio'r rheolau hyn i'n helpu i gyflogi'r bobl gywir a chadw'r bobl gywir yn gweithio i ni

## Maes 3 - Ein staff



Rydym yn gyflogwr teg sy'n cefnogi ein staff i fod cystal ag y gallant fod.

### Beth rydym am ei wneud:



- edrych ar y bobl sy'n gweithio i ni. Rydym am sicrhau bod gennym staff o lawer o gymunedau gwahanol yng Nghymru



- sicrhau bod ein hysbysebion swyddi yn denu mwy o bobl o grwpiau a chefnidiroedd gwahanol

### Sut y byddwn yn gwneud i hyn ddigwydd:



- sicrhau bod ein rheolwyr a'n penaethiaid yn gymysgedd da o grwpiau a chefnidiroedd



- edrych ar yr hyn sy'n gwneud pethau'n anodd i bobl wrth weithio i ni. Byddwn yn herio unrhyw beth sy'n annheg



- gweithio yn y ffordd orau pan fyddwn yn cyflogi staff newydd



- rhoi mwy o gyfleoedd i staff gael rhai o'r swyddi gorau



- cael mwy o swyddi prentisiaeth i bobl ifanc



## Beth rydym am ei wneud:



- edrych ar yr hyn sy'n gwneud pethau'n anodd i bobl wrth ymgeisio am swydd gyda ni. Er enghraifft, pobl o leiafrifoedd ethnig a phobl anabl.



Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i wella pethau ac atal rhwystrau

## Sut y byddwn yn gwneud i hyn ddigwydd:



- casglu gwybodaeth am pwy sy'n ymgeisio am ein swyddi

- holi pobl am eu profiad.  
Pobl sydd:

— wedi ymgeisio am swydd gyda ni

**neu**

— eisoes â swydd gyda ni



## Beth rydym am ei wneud:



- cael ffyrdd gwell o gyfweld a hyfforddi staff newydd. Edrychwch ar fwy o ffyrdd o gyfweld ar-lein

## Sut y byddwn yn gwneud i hyn ddigwydd:



- dod o hyd i ffyrdd gwahanol o ddweud wrth bobl am ein swyddi. Gallai hyn fod ar-lein neu ar y cyfryngau cymdeithasol



- hyfforddi rheolwyr ynghylch cyflogi staff newydd



- sicrhau bod cymysgedd o bobl yn cynnal y cyfweiliadau



- sicrhau y gall ein staff weithio mewn ffyrdd gwahanol. Gallai hyn gynnwys gweithio gartref ac ar-lein

## Beth rydym am ei wneud:



- Gwyddom fod menywod a phobl o leiafrifoedd ethnig, yn y gorffennol, wedi cael llai o dâl na phobl eraill.

Byddwn yn sicrhau ein bod yn talu pobl yr un peth am swyddi tebyg.



## Sut y byddwn yn gwneud i hyn ddigwydd:



- cyflogi cymysgedd o bobl o grwpiau a chefnidiroedd gwahanol



- gwirio cyflogau ein staff. Byddwn yn sicrhau bod cyflog pawb yn deg am y swydd y mae'n ei gwneud



## Beth rydym am ei wneud:

- rhoi cyfleoedd i bobl sydd eisoes yn gweithio i ni gael swyddi gwell neu wahanol gyda ni

## Sut y byddwn yn gwneud i hyn ddigwydd:



- rhoi cyfleoedd i bobl roi cynnig ar swyddi gwahanol yn ein sefydliad am gyfnod byr. Bydd hyn yn eu helpu i ddysgu sgiliau newydd



- rhoi mwy o hyfforddiant a chymorth i bobl roi cynnig ar bethau newydd

## Maes 4 - Sicrhau bod pawb yn gallu defnyddio gwaith ein Senedd a chymryd rhan ynddo



Rydym am sicrhau bod Senedd Cymru yn groesawgar ac yn agored i bawb.

### Beth rydym am ei wneud:



- mwy o siarad â'n cymunedau lleol. Cael gwybod beth y mae arnynt ei angen a pham y mae'n anodd defnyddio gwasanaethau



- codi awydd ar fwy o bobl i ddod i weithio gyda ni. Yn enwedig pobl o grwpiau y mae'n anodd eu cyrraedd

## Sut y byddwn yn gwneud i hyn ddigwydd:



- asglu gwybodaeth am gefndiroedd pobl



- meddwl sut y bydd ein gwasanaethau, ein digwyddiadau neu ein gweithgareddau'n effeithio ar bobl wahanol.

Byddwn yn sicrhau bod staff yn cynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer pob digwyddiad

## Beth rydym am ei wneud:



- Mae ein Gwasanaeth Cymorth Busnes i'r Aelodau yn rhoi cymorth i bobl yn Senedd Cymru.



Bydd y Gwasanaeth yn helpu'r Aelodau i ddeall cynhwysiant wrth gyflogi staff newydd a chynnig gwasanaethau.



Os ydych am wybod mwy am ein cynllun ar gyfer Amrywiaeth a Chynhwysiant, cysylltwch â ni.



**Drwy e-bost:**

**Amrywiaeth@Senedd.Cymru**



**Drwy'r post:**

**Y Tîm Amrywiaeth a Chynhwysiant  
Comisiwn y Senedd**

**Bae Caerdydd**

**Caerdydd**

**CF99 1SN**